



Cynllun Gweithredu AGIC Hergest 2014

Ymweliad ag Uned Hergest 12 Mai 2014

Fersiwn 2

Mater sy'n Achos Pryder		Camau Gweithredu Gofynnol a Sut	Cynnydd Hyd Yma	Gan Bwy	Erbyn Pryd
1	Mae angen cynnal adolygiad brys o'r ystafell Neilltuo ar ward Taliesin. Roedd toiled a basn ymolchi yn yr ystafell ac roedd diffyg preifatrwydd ac urddas gan fod ffenestri yn yr orsaf nyrsys yn edrych yn syth dros y toiled yn yr ystafell. Cafodd y mater ei nodi ym mis Rhagfyr 2013 ac ym mis Awst 2012 ac felly mae angen gweithredu'n fwy prydlon arno	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu adolygiad gan arbenigwr mewn amgylcheddau PICU ar y cyfle cynharaf. Bydd y farn arbenigol hon yn cynnwys adolygiad o'r polisi neilltuo hefyd. Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn sicrhau mai dim ond am gyfnodau byr y bydd yr ystafell neilltuo'n cael ei defnyddio ac na fydd yn cael ei defnyddio am fwy na 24 awr ar y tro. Os yw cyfnod neilltuo'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod yma bydd amgylchedd PICU â chyfleusterau ystafell neilltuo'n cael ei chomisiynu	Cynhaliwyd adolygiad o'r cyfleuster Neilltuo ar 16 Mehefin 2014 a disgwylir am adroddiad a fydd yn nodi argymhellion Mae grŵp Tasg a Gorffen wedi cael ei sefydlu i adolygu'r polisi ar yr ystafell neilltuo ac ystyried arfer gorau	Rheolwr Ardal Oedolion Rheolwr Ardal Oedolion	Mehefin 2014 ar gyfer derbyn yr adroddiad Medi 2014
2	Er y cydnabyddir bod ystafell eiddilwch wedi cael ei chreu ar ddwy o'r wardiau, byddai ward eiddilwch o fudd i'r grŵp yma o oedolion agored i niwed a byddai'n gwella'r modd y darperir gofal ar gyfer y grŵp yma o gleifion	Bydd y Bwrdd Iechyd yn cwblhau'r cynllun tymor byr ar gyfer ardal bwrpasol i gleifion eiddil	Papur terfynol i gael ei gytuno a hwnnw'n nodi'r cynllun tymor byr ar gyfer gofal am gleifion eiddil	Rheolwr Ardal Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Mehefin 2014

		Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu i opsiynau gael eu cytuno gan y timau clinigol lleol ar y datrysiadau posib i greu ward bwrpasol o fewn yr ôl troed sydd ar gael. Bwriedir gofyn i arbenigwyr ar ystadau a chynllunio weithio gyda'r timau lleol	Mae grŵp ailddatblygu Hergest wedi cael ei gynnull i ymdrin â'r mater yma a bydd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu opsiynau	Rheolwr Ardal Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Medi 2014
3	Dylai'r Bwrdd Iechyd drefnu adolygiad annibynnol o episod o ofal	Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu adolygiad annibynnol o'r achos arbennig	Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei gymryd gan y Pennaeth Staff a Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol	Pennaeth Staff a Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol	Gorffennaf 2014

4	Dylai'r ystafell Therapi Electrogynhyrfol gael ei datgomisiynu ar unwaith	Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu bod yr ystafell Therapi Electrogynhyrfol yn cael ei datgomisiynu	Mae'r ystafell Therapi Electrogynhyrfol wedi cael ei datgomisiynu Mae'r llwybr Therapi Electrogynhyrfol ar gyfer trosglwyddo cleifion i Uned Ablett wedi cael ei ddosbarthu i'r timau clinigol	Rheolwr Ardal Oedolion Rheolwr Ardal Oedolion	Mehefin 2014 Mehefin 2014
5	Roedd gwybodaeth am gleifion yn dal i gael ei harddangos ar fyrddau gwyn yn yr orsaf nyrsys ac roedd yn amlwg i gleifion eraill ac ymwelwyr (pwynt 17, Rhagfyr 2013). Rhaid i wybodaeth am gleifion gael ei diogelu	Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu bod darparwr gwahanol yn cael ei gomisiynu i ddatblygu byrddau gwybodaeth am gleifion	Mae'r Bwrdd Rhaglen Glinigol wedi trefnu darparwr gwahanol ac mae'n disgwyl i samplau o'r byrddau newydd gael eu danfon	Rheolwr Busnes Cynorthwyol	Gorffennaf 2014

6	Cynhaliwyd adolygiad o 5 set o ddogfennaeth gofal ac fe wnaed y sylwadau canlynol		Bydd y Bwrdd Iechyd yn gwirio'r holl gleifion a restrir i sicrhau bod y pwyntiau a nodir wedi'u gwirio o ran Cynlluniau Gofal a Thriniaeth, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gwybodaeth am asesiadau risg	Rheolwr Ardal Oedolion	Mehefin 2014
			Bydd memo'n cael ei lunio i atgoffa timau clinigol am ddefnyddio a dogfen y Ddeddf Galluedd Meddyliol	Rheolwr Ardal Oedolion	Mehefin 2014
			Mae memo wedi cael ei lunio sy'n nodi hyfforddiant ar y MIM	Nyrsio Sefydliadau Gofal Atebol	Mai 2014
			Mae memo wedi cael ei anfon yn	Nyrsio Sefydliadau	Mai 2014
	a. Nid oedd yr asesiad risg yn glir				
	b. Nid oedd yr adran ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 wedi cael ei chwblhau				
	c. Nid oedd y Cynllun Gofal a Thriniaeth ar gyfer cleifion wedi cael ei gwblhau				
	d. Nid oedd yr wybodaeth am y proffil sgîl-effeithiau wedi cael ei chwblhau				
	e. Cleifion yn cael eu trosglwyddo rhwng wardiau ond y Cynllun Gofal a Thriniaeth heb ei gwblhau				
	f. Roedd nifer o ffurflenni arsylwi heb ddyddiadau arnynt.				
	g. Nid oedd rhai o'r cynlluniau gofal yn diffinio unrhyw feysydd risg				
	h. Os yw cynlluniau gofal craidd/generig yn mynd i gael eu defnyddio yna rhaid iddynt gael eu gweithredu'n llawn				

	i. Mae angen i ffactorau sy'n lleihau risg wrth ystyried lefelau arsylwi gael ystyriaeth mewn cynlluniau gofal j. Nid oedd gweithdrefn BIPBC ar Arsywlwadau Therapiwtig ar gyfer Cleifion Mewnol yn cael ei gweithredu. Nid oedd cofnodion arsylwi'n cael eu defnyddio, nid oedd cofnodion mewn nodiadau ac nid oedd unrhyw arwydd y gellid yn ddiogel roi peth preifatrwydd i'r cleifion k. Nid oedd dogfennau neilltuo'n cynnwys dyddiad dechrau pan oedd y cyfnod neilltuo'n mynd i fod yn un sylweddol		atgoffa staff am y Polisi Arsywlwadau Therapiwtig, cynllunio gofal a defnydd cywir o'r ddogfennaeth Mae grŵp Tasg a Gorffen wedi cael ei sefydlu i adolygu Polisi Arsywlwadau Therapiwtig y Grŵp Rhaglen Glinigol Mae grŵp Tasg a Gorffen wedi cael ei sefydlu i adolygu'r polisi ar yr ystafell neilltuo	Gofal Atebol Rheolwr Ardal Oedolion Rheolwr Ardal Oedolion	Medi 2014 Medi 2014
7	Adolygiad o ofal mewn perthynas â throsglwyddo claf o Uned Gofal Dwys Seiciatrïg	Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu adolygiad annibynnol o'r achos arbennig	Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei gymryd gan y Pennaeth Staff a Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol	Pennaeth Staff a Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol	Gorffennaf 2014

8	Roedd y system ar gyfer cofnodi hyfforddiant staff yn cael ei chynnal ar lefel ward ac roedd gan bob ward system wahanol. Nid oedd system yn bodoli a oedd yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i Uned Hergest yn ei chyfanrwydd. Roedd realiti'r sefyllfa gyda'r system hon yn ymwneud â mynediad at wybodaeth; tra'r oedd rheolwr ward Aneurin yn absennol, nid oedd modd cael mynediad at gofnodion hyfforddiant. Rhaid sefydlu system gynhwysfawr i gofnodi ac adnabod hyfforddiant sy'n gwbl hygyrch	Bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu systemau a rheolaethau i gofnodi hyfforddiant	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu adnodd pwrpasol i roi cymorth i gydgyssylltu gwybodaeth am hyfforddiant (1 diwrnod yr wythnos) ac i'r wybodaeth hon gael ei diweddarau ar system adrodd y Bwrdd Iechyd Mae adroddiad misol wedi cael ei gynhyrchu sy'n nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac fe greffir arno yng nghyfarfod Uwch Nyrsys Hergest	Swyddog Hyfforddiant Arweiniol gyda chymorth y Rheolwr Ardal Oedolion Arweinydd Hyfforddiant gyda chymorth y Rheolwr Ardal Oedolion	Mai 2014 Mehefin 2014
9	Roedd nifer o staff, gan gynnwys staff newydd, nad oeddent wedi cael hyfforddiant mewn Ymyriad Corfforol Cyfyngol (RPI). Ar ben hynny, nid yw staff cronfa'n cael	Bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu systemau a rheolaethau i sicrhau lefelau uchel o hyfforddiant mewn Ymyriad Corfforol Cyfyngol	Mae'r Grŵp Rhaglen Glinigol wedi casglu data ar staff rheolaidd sydd	Arweinydd Hyfforddiant gyda chymorth y Rheolwr Ardal	Gorffennaf 2014

	hyfforddiant Ymyriad Corfforol Cyfyngol. O ganlyniad i hyn, roedd tîm o staff ar wardiau eraill wedi gorfod cael ei ffurfio i gefnogi staff ar ward Taliesin am nad oedd ganddynt ddigon o staff a oedd wedi cael hyfforddiant mewn Ymyriad Corfforol Cyfyngol. Mae'n rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant mewn Ymyriad Corfforol Cyfyngol i sicrhau diogelwch staff a chleifion ar bob un o'r tair ward		wedi cael hyfforddiant mewn Ymyriad Corfforol Cyfyngol ac mae'r gydymffurfiaeth ar hyn o bryd ar 23 Mehefin 2014 fel a ganlyn: Aneurin: 92% Cynan: 48% Taliesin: 65%	Oedolion	
			Bydd hyfforddiant yn cael ei archebu ar gyfer yr holl staff rheolaidd a chronfa	Arweinydd Hyfforddiant gyda chymorth y Fatron	Mehefin 2014
10	Mae angen cynnal adolygiad o'r defnydd o adnoddau therapi a gweithgareddau, yn offer a phersonél. Nid oedd yr ystafell a deunyddiau crefft therapi galwedigaethol yn cael eu rhannu gyda'r cydgysylltydd gweithgareddau. Byddai cymorth gan staff neu gydgysylltydd gweithgareddau arall yn dwyn canlyniadau buddiol i'r wardiau i gynyddu i'r eithaf y gweithgareddau a gynigir	Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu adolygiad o'r adnoddau therapi yn Uned Hergest i sicrhau bod adnoddau ac arbenigedd yn cael eu defnyddio'n briodol	Bydd adolygiad o'r defnydd o adnoddau'n cael ei drefnu	Rheolwyr Ardal Oedolion ac Iechyd Meddwl Pobl Hŷn a'r Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Gwasanaethau Oedolion	Medi 2014
			Bydd cydgysylltydd	Matron	Medi 2014

			gweithgareddau ychwanegol yn cael ei recriwtio i'r tîm yn fuan	Oedolion	
			Bydd memo'n cael ei gynhyrchu a fydd yn nodi'r gofynion allweddol ar gyfer defnyddio'r offer yn yr uned	Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Gwasanaethau Oedolion	Mehefin 2014
11	Mae angen i'r argymhellion yn yr 'Adroddiad Seicoleg Glinigol mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Aciwt i Oedolion', dyddiedig Ionawr 2014, gael eu rhoi ar waith a'u cyflawni i sicrhau bod y gwasanaethau seicoleg ar gael		Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu bod yr adroddiad yn cael ei archwilio gan y Grŵp Rhaglen Glinigol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i wirio pa agweddau y gellir canlyn arni â hwy	Rheolwr Ardal Oedolion ac Arweinydd Seicoleg y Gorllewin	Medi 2014
12	Wrth integreiddio Nodiadau, nid oedd gwybodaeth wedi cael ei chario drosodd mewn rhai achosion, gan gynnwys asesiad risg / canlyniadau absenoldeb. Mae angen sefydlu		Bydd y Bwrdd Iechyd yn ail-archwilio'r prosiect Nodiadau Achosion	Rheolwr Busnes Cynorthwyol gyda chymorth y Rheolwyr Ardal	Medi 2014

	cynllun i'r wybodaeth fod ar gael ar gyfer y Nodiadau		Integredig i sicrhau bod gwybodaeth mewn perthynas ag asesu risgiau / cofnodi absenoldeb yn cael ei throsglwyddo o un episod gofal i'r llall Bydd memo'n cael ei lunio a hwnnw'n nodi'r paramedrau ar gyfer darparu gofal trwy nodiadau achosion integredig a bydd y weithdrefn weithredu safonol yn cael ei hailgylchredeg	Oedolion ac Iechyd Meddwl Pobl Hŷn Rheolwr Busnes Cynorthwyol	Mehefin 2014
13	Mae angen i'r system oruchwyllo / arfarnu ar gyfer staff meddygol gael ei sefydlu fel rhan annatod o'u datblygiad. Ni chafodd y tîm adolygu'r lefel angenrheidiol o sicrwydd bod rhai aelodau o staff meddygol wedi cael unrhyw adolygiadau rheoli perfformiad		Bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu systemau i sicrhau bod goruchwyllo ac arfarnu'n cael eu sefydlu fel rhan annatod o ddatblygiad staff	Pennaeth Staff a Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol	Medi 2014

			meddygol		
14	Roedd rhai cleifion heb unrhyw nodyn ar y ffeil i gadarnhau eu bod wedi cael gwybod neu wedi deall eu hawliau dan A132. Rhaid i'r holl gleifion sydd dan gadwad gael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau dan A132		Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu archwiliad o weithgareddau i egluro hawliau i gleifion sy'n ddarostyngedig i rannau o'r Ddeddf Iechyd Meddwl Mae staff wedi cael eu hysbysu'n ysgrifenedig o'u cyfrifoldebau am ddogfennu gweithredoedd i egluro hawliau cleifion Mae Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi datblygu ffurflen leol sy'n nodi pan fo cleifion yn cael	Gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl y Gorllewin Gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl y Gorllewin Gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl y Gorllewin	Awst 2014 Mehefin 2014 Mehefin 2014

			gwybod eu hawliau dan a132 o'r Ddeddf. Mae'r ffurflen hon hefyd yn dogfennu pa un a oedd y claf yn deall ei hawliau. Os ystyrir nad oedd y claf yn deall ei hawliau, caiff y rhain eu hailddatgan a chaiff y gweithgaredd hwnnw ei ddogfennu'n briodol		
15	Dylid cynnal adolygiad o'r adnoddau mewn perthynas â gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl		Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o'r adnoddau sydd wedi'u neilltuo i weinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl i sicrhau bod y swyddogaeth hon yn ddigonol ar gyfer Uned Hergest	Rheolwr Busnes	Medi 2014

